CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd am 7pm ar 4 Ionawr 2021 yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd)(Cymru 2020.*

---

Presennol: Cadeirydd: Cyng Steve Kings, Cyngr: Hywel Davies, Iwan Davies, Amanda Edwards, Nicky Redmond, Ken Symmons

CS Clive Davies

Clerc

Aelodau'r cyhoedd a'r wasg yn bresennol: 0

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng C Proven.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Dim.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**4. Cadarnhau Cofnodion 07.12.2020**
Cynigiodd y Cyng N Redmond y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng K Symmons a chytunwyd.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

Diweddariad llifogydd a TAN 15 dyddiad cau 8 Ionawr
Cadarnhawyd bod y map llifogydd yn yr ardal yn gynrychioliadol.

Cynllun Creu Coedlan Glastir ar gyfer Coedmor ger Llechryd
Cefnogodd y Cyngor y cynigion cyn belled â bod y plannu'n adlewyrchu rhywogaethau lleol sydd eisoes yn tyfu yn yr ardal.

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Dywedodd y CS Clive Davies fod y llifogydd yn ddiweddar wedi effeithio ar 4 neu 5 eiddo. Canmolodd yr ymateb cyflym gan y gymuned a'r ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion. Cytunodd i ymchwilio i'r pryderon am y sbwriel a'r tagfeydd yn yr afon sy'n gwaethygu'r llifogydd. Awgrymodd gwybodaeth leol fod y gamlas, sydd nawr wedi ei hatal, yn arfer cymryd rhywfaint o'r llif. Nododd y cyfle parhaus i wella band eang yng Ngheredigion. Soniodd fod goblygiadau'n parhau oherwydd y tywydd a salwch staff ar gyfer casglu sbwriel. Roedd y ganolfan frechu COVID yn Aberteifi nawr ar agor ac ar waith. Cytunodd i drafod gyda'r heddlu effaith cerbydau 4x4 yn teithio ar hyd ffyrdd a

gaewyd oherwydd y llifogydd yn ddiweddar.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

**7.1 Taliadau Misol**

*7.1.1 Cymeradwyo cyfrifon sy'n daladwy*

| | Talai | Am | banc | |
|---|---|---|---|---|
| 30.12.20 | LAS | DU | 22.74 | |
| 4.01.21 | HARC | | 76.60 | |
| | S E Davies | Cyflog | 307.09 | |
| | S E Davies | Swyddfa yn y Cartref / Postio 4.45 | 29.45 | |
| | S Kings | Ffens diogelwch | 17.70 | |
| | Danfo | Glanhau'r Bloc | 273.00 | |
| | Dŵr Cymru | Bloc toiledau | 55.40 | Cerdyn |
| | Digwyddiadau Cymunedol Pentref Llechryd | Baner Llangoedmor | 30.00 | |

*Cytunwyd.*

*7.1.2 Cyllideb 2021-22*
*I'w gymeradwyo a gosod y praesept am 21/22*
Yn ystod trafodaeth nodwyd bod gan y Cyngor atebolrwydd posibl o ran gwaith trwsio ar eiddo prydles Eglwys Dewi Sant y Groes Sanctaidd. Roedd y Cyngor yn disgwyl ymateb y cwmni yswiriant i'r mater. Os byddai'r yswiriant yn talu am y costau trwsio, roedd gan y Cyngor brosiectau wrth law y gellid mynd i'r afael â nhw. Gan gofio am yr atebolrwydd hwn, cynigiwyd praesept o £40k am y flwyddyn ariannol 21-22. Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd.
GWEITHREDU: Rhoi gwybod i'r Sir GAN: Y Clerc

*7.1.3 Achosion o Covid yn y gymuned*
Nodwyd bod y DG, er cyflwyno'r brechlyn, ymhell iawn o fod wedi cael rheolaeth dros y feirws. Roedd grŵp gwirfoddolwyr y pentref yn dal i weithredu, ond roedd angen mwy o wirfoddolwyr. Trafodwyd grŵp FE pentref i ddelio â gwybodaeth am COVID.

*7.1.4 Bancio ar-lein – diweddariad*
Roedd y Clerc wedi anfon gwybodaeth, fel y daeth oddi wrth y banc, at y llofnodwyr.

**8. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

***8.1 Croes-y-Llan***
Yn dilyn cyfarfod PACT mis Rhagfyr, dywedodd y Cadeirydd fod yr heddlu'n ymwybodol iawn o'r sefyllfa wrth y groesffordd. Oherwydd patrwm y ffordd, roedd yr ardal yn rhy beryglus i wirfoddolwyr gadw llygad ar gyflymdra (pe bai grŵp yn cael ei ffurfio). Byddai cerbydau heb arwydd arnynt yn ymweld â'r fan pan fyddai'n bosibl.

***8.2 Llwybr i Aberteifi***
*8.2.1 Diweddariad am y cynnydd gyda map cerdded*
Roedd y prosiect ar stop am y tro gan fod pobman ar glo oherwydd COVID.

*8.2.2 Diweddariad am y llwybr i Aberteifi*
Roedd yr ymgynghoriad Teithio Llesol yn dal ar agor, ac anogwyd Cynghorwyr i ymateb gan ddefnyddio'r meddalwedd mapio ar-lein.

***8.3 Pont Llechryd***
Ar ôl y llifogydd yn ddiweddar, dim ond un gangen oedd wedi ei dal rhwng y bwâu.

**9. Amwynderau**

**9.1 Bloc Toiledau**
Roedd y dŵr oedd yn gollwng yn dal heb ei drwsio. Cytunwyd, cyn belled â bod Danfo yn gallu parhau i lanhau'r bloc, na fyddai'n cael ei gau oherwydd COVID.

***9.2 Man/Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd***

9.2.1 *Ffin*
Roedd y cyfreithiwr wedi cael gwybod a'r gwaith eisoes ar y gweill i nodi'r ffin yn barod ar gyfer ei chofrestru. Rhoddwyd caniatâd gan y Cynghorwyr a oedd yn bresennol i'w cyfeiriadau preswyl gael eu rhoi i'r cyfreithiwr (y Clerc i gysylltu â'r rhai nad oeddent yn bresennol i roi eu caniatâd).

It was noted that issue with dog fouling had increased and it was queried if some kind of trail cam could be installed. The Clerk explained that the Council had to comply with GDPR requirements which were quite complex for CCTV. It was agreed to ask if the police might place their trail cams at the site.
ACTION: Contact police BY: CC Clive Davies/Clerk

The Clerk would contact Danfo with regard to clearing the path by the memorial bench as the path was extremely slippery.
ACTION: Contact Danfo BY: Clerk

*9.2.2 Man chwarae*
*9.2.1 Nodwyd gwaith trwsio heb ei wneud ar ôl archwiliad ROSPA*
Angorau ar gyfer pystion y gôl
Trwsio ffin y maes chwarae
Bin newydd yn y maes chwarae – Cyng S Kings i wneud os yw'n bosibl
Gât i gau ei hunan i'r maes chwarae - Cyng H Davies
Angen tocio'n sylweddol y llwyn yn y cornel sydd wedi gordyfu a'r clawdd gerllaw – cyfarfod safle gyda chontractwyr posibl

Ail-leoli'r fainc bicnic ar ôl gosod y llwybr concrid eto
Mainc bicnic y plant. Yn cael ei storio. Ei rhoi yn ei lle ar ôl gosod y llwybr concrid

*9.2.2 Adnewyddu'r man concrid*
Awgrymwyd i'r Clerc gysylltu â Dai Hughes Cyf.

**9.3 Parc Ceir – Neuadd y Cwrwgl**
Roedd y cyfreithiwr wedi cael gwybod a'r gwaith yn mynd ymlaen. Rhoddwyd caniatâd gan y Cynghorwyr a oedd yn bresennol i'w cyfeiriadau preswyl gael eu rhoi i'r cyfreithiwr (y Clerc i gysylltu â'r rhai nad oeddent yn bresennol i roi eu caniatâd).

***9.4 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd***
Roeddem yn dal i ddisgwyl ymateb gan yr yswirwyr. Cytunwyd, pan fyddai gwaith yn mynd yn ymlaen, y byddid yn gwneud y gwaith angenrheidiol ar y cysylltiad ar gyfer y goleuadau Nadolig a oedd wedi eu nodi gan y trydanwr.

**10. Digwyddiadau**
Dim byd wedi dod ymlaen.

**11. Adroddiadau cyfarfodydd**
I gael unrhyw adroddiadau.
*11.1 Cyng I Davies – Llywodraethwyr Ysgol*
Llongyfarchwyd y Cyng N Redmond ar gael ei benodi'n Gadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol. Roedd yr Ysgol yn falch iawn o allu dweud nad oedd dim achosion o COVID ymhlith y staff na'r plant.

*11.2 Cyng H Davies – Neuadd y Cwrwgl*
Dim byd wedi dod ymlaen.

*11.3 Cyfarfod PACT mis Rhagfyr*
Cynhwysir dan benawdau priodol yr agenda.

Cytunwyd i ychwanegu pennawd ar gyfer y Grŵp Gwytnwch er mwyn caniatáu gwneud diweddariadau.

**12. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori na chynhwysir dan unrhyw bennawd arall)**
*Nodwyd*

*Llofnod y Cadeirydd.....................................................................................Dyddiedig*

Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Economaidd Ceredigion - Hybu Economi Ceredigion: Strategaeth i weithredu 2020-35 cau 29.01.21

**13. Materion Personol / Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**

Gofynnodd y Cyng am i lythyr llongyfarch gael ei anfon at Swyddfa Bost Aberteifi gan ei fod yn deall bod y Swyddfa wedi ennill gwobr. Byddai'r Cyng I Davies yn anfon y manylion cyswllt at y Clerc.

Byddai hysbysiadau oedi wrth Gyngor Ar Bopeth yn cael eu hargraffu a'u rhoi ar yr hysbysfwrdd. Dywedodd y CS Clive Davies fod y niferoedd a oedd yn troi at CAB wedi codi yn ystod y pandemig.

**14. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 01.02.2021**

Oherwydd Gwyliau'r Banc, byddai cyfarfodydd mis Ebrill a mis Mai yn gwrthdaro â chyfarfodydd y Ferwig, ac un drwydded Zoom yn unig oed ar gael drwy'r CS Clive Davies.
GWEITHREDU: Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf ar yr agenda nesaf GAN: Y Clerc

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 20.34*

*Llofnod y Cadeirydd.........................................................................................Dyddiedig*